# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001

**Y Cefndir**

Mae Rhan VII o Ddeddf Tai 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau tai lleol ddarparu llety ar gyfer y rhai sy'n ddigartref, yn gymwys i gael cymorth, ac arnynt angen blaenoriaethol.

Mae adran 189 o'r Ddeddf yn rhestru pedwar categori o berson y mae arnynt "angen blaenoriaethol". Mae adran 189 yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ychwanegu at y categorïau hynny drwy orchymyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn estyn y categorïau o angen blaenoriaethol.

Mae'r sbardun ar gyfer y Gorchymyn hwn wedi deillio o fewn y Cynulliad er y deellir y gall fod rhywbeth tebyg wedi'i gynnig bellach ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ar ôl cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Gorchymyn hwn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o faterion ddrafftio sydd wedi'u cymryd i ystyriaeth bellach. Felly, nid oes unrhyw bwyntiau sydd wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfau**

13 Chwefror 2001